**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Mawrth 11eg, 2024 am 7.30 y.h. yn Neuadd y Rhiw**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Gwenllian Haf Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones, Nesta Roberts, Dafydd Williams, Gareth Williams (Cyngor Gwynedd), Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Robert Williams.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:**

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:**

Hoffwn gydymdeimlo efo teulu Wenda a Dafydd am eu colled diweddar. Roedd William Williams yn gyn-gynghorydd am flynyddoedd a bydd colled mawr ar ei ôl.

Rydym yn croesawu Phil y clerc newydd ac yn diolch yn fawr i Dewi a Nesta am gyflawni'r swydd am fisoedd.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Chwefror 12fed , 2024**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion**

*i) Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau*

Dim ymateb gan Gyngor Gwynedd am faterion y ffyrdd. Nododd y cynghorwr Mari Evans bod y twll ger y fynedfa i Bryn Llan, Rhoshirwaun wedi cael ei drwsio.

Dŵr dal yn casglu yn Bryn Eiddon, bydd angen mynd yn ôl at gyngor Gwynedd am ymateb.

*ii) Materion yr Eglwys Newydd*

Mi godwyd cwestiwn pwy sydd i arolygu gwaith Gallagher. Rydymeisiau gwybod os oes raid i ni wario £2000+ i Donald Insall i arolygu, ynta fedrwn ni ddefnyddio'r pres hwnnw i bethau rheitiach.

Mae gan Scottish Power fil am drydan yn y capel ond nid ydynt wedi bod yn cymryd pres drwy'r banc, bydd angen mynd yn ôl atyn nhw i ofyn pam.

Dewi wedi ffonio Darren Gallagher gan ei fod yn dweud ei fod am ddechrau'r gwaith ond nodwyd mae dim ond rhan o'r scaffold sydd wedi mynd i fyny ar hyn o bryd.

*iii) Y Fynwent*

Mae John Gwynfor Jones wedi bod yn asesu beddi a meinciau ac wedi rhoi sylwad nad oes angen tir newydd am rai blynyddoedd gan fod 120-150 o feddi ar gael yno.

*iv) Y Cae Chwarae*

Mae gwaith wedi cael eu orffen yn y cae chwarae gan GL Jones, adroddodd Cyng. Gwenllïan Haf bod 'roundabout' i blant anabl wedi cael ei osod yno. Nodwyd mai ffens rownd y cwrt pêl-fasged fydd ei angen nesaf yn y cae chwarae. Mae anfoneb wedi ei derbyn a bydd yn cael ei thalu drwy gyngor Aberdaron.

Fel arfer bydd archwiliad yn cael ei wneud bob mis Ionawr ar y cae chwarae ond heb gael ei wneud hyd yn hyn, bydd angen cysylltu gyda chwmni 'Wichsteed' am y mater.

Roedd y Cyng. Gwenllïan Haf eisiau rhoi diolch i'r Cyng. Gareth Williams am ei amser a gwaith ynglŷn â'r cae chwarae.

**5) Gohebiaethau**

i) **Dynodiad yr ardal yn un o arwyddocâd Ieithyddol:** Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Siân Parry yn gofyn a fyddai'r Cyngor eisiau trafod sut i godi proffil y Gymraeg ym mhob cyfarfod ac yn gofyn a fyddai gan rai aelodau ddiddordeb mewn trafod a'n bod hefyd yn cyfarfod i ystyried posibiliadau sefydlu cynllun tai fforddiadwy gydag Amod Iaith arno.

ii) **Cyllid newydd ar gael ar gyfer creu coetiroedd:** Wedi ei drafod ond does gan y cyngor ddim tir i blannu coed.

iii) **Cais i gynghorwyr fynychu'r modiwlau hyfforddiant drwy'r Gymraeg:** Trafodwyd y modiwlau a phenderfynwyd ei fod ar gael os oes rhywun eisiau mynd.

**6) Ceisiadau am gyfraniadau ariannol a dderbyniwyd ers cyfarfod mis Medi**

Gwnaed y cyfraniadau isod o dan bwerau Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

i) Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri: £200

ii) Eisteddfod Uwchmynydd: £250

iii) Penderfynwyd cyfrannu £250 yr un i Neuadd Rhoshirwaun, Neuadd Y Rhiw a Chanolfan Deunant

**7)Tendrau torri gwellt a chynnal llwybrau**

Wedi hysbysebu ar dudalen Facebook ac mae'r tendrau i fod i mewn erbyn y 1af o Ebrill. Bydd angen gweld asesiad risg ac yswiriant i benodi. Os bydd angen mapiau o'r llwybrau mae nhw gan Nesta.

**8)Cynllunio**

**C24/0007/30/TC:** Erthygl 4 – Ddim newid defnydd tŷ haf. Doedd dim sylwadau am hyn gan y cyngor ond os oes sylwad unigol gall cynghorwyr unigol yrru sylwadau os mynnant.

**9) Ariannol**

*Taliadau*

HSBC: £5.50 (Ffioedd)

Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)

Cyfrifiaduron Porthmadog Computers: £450

Neuadd Y Rhiw: £30 (Cyfarfod)

Canolfan Deunant: £90 (Cyfarfodydd)

GL Jones: £21,660 (Cae chwarae)

Cradur.com: £43

*Derbyniadau*

Ad-daliad TAW: £1955.72

Ifan Hughes am Angladd W.D.Williams ac ailosod carreg: £255

**10) Materion ffyrdd a llwybrau**

Mae cyflwr y ffordd o Groeslon 'Ffôr' i Tŷ Croes, Y Rhiw yn sâl.

Ysbyty Gwynedd wedi lleihau nifer y gwlâu o 580 i 320 ac yna lawr i 280, penderfynwyd gofyn eto i Mabon ap Gwynfor .

Cododd y cwestiwn; pwy sydd i fod i gynnal gwaith cadw ar y 'Fire Hydrants' a pha mor aml, penderfynwyd cysylltu â'r gwasanaeth tân.

Cofnodion y cyngor yn ôl i'r 70au, bydd angen cysylltu â'r archifdy i weld os ydyn nhw angen mynd yno.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, 8fed o Ebrill, 2024**

**yng Nghanolfan Deunant.**